

Ffocws y Pwnc

Gofalu am ein hamgylchedd, bod yn ddinesydd gweithgar a chredoau am farwolaeth.

Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn datblygu gwerthfawrogiad y plant o'r hyn sy'n gwneud safle claddu mor arbennig, gan astudio ei awyrgylch, eu teimladau tuag ato a beth mae safleoedd claddu'n ei olygu i'r gymuned leol. Bydd y plant yn ymchwilio i'r ffyrdd y mae pobl yn defnyddio safleoedd claddu, sut maent yn gofalu amdanant fel cynefin unigryw a sut gallant hwy gymryd rhan. Hefyd, mae'r gweithgareddau'n gyfle i'r plant adlewyrchu ar y gwahanol agweddau tuag at farwolaeth a sut mae bywyd yn cael ei ddathlu a'i gofio.

Dyma'r gweithgareddau: Rhywbeth Arbennig, Defnyddiau Unigryw, Pŵer Pobl, Gwneud Synnwyr o Fywyd a Marwolaeth.

CSBC, CA1 a CA2

Sgiliau Allweddol

Adlewyrchu
Trafod
Cydymdeimlo
Cwestiynu
Datrys Problemau
Ymateb

Geiriau Allweddol

Rheoli
Cadwraeth
Gwirfoddoli
Dathlu

Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y plant mewn Saesneg, ABACh a Dinasyddiaeth ac Addysg Grefyddol.

CSBC

Datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol
Hunanhyder a hunanymwybyddiaeth
Rheoli teimladau ac ymddygiad
Meithrin perthnasoedd



Dyfarniad John Muir

Darganfod
Archwilio
Gwarchod
Rhannu



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynau a'r heriau canlynol:

Enfys – Edrych a Dysgu

Beavers – Dyfarniad Her Greadigol, Gweithgaredd Archwilio, Gweithgaredd Ffydd, Her Fyd-eang

Brownies – Diwylliant, Y Tymhorau, Archwiliwr Bywyd Gwyllt

Cybiau – Her Gymunedol, Gweithgaredd Cadwraeth Fyd-eang

Guides – Gweithredu Cymunedol, Darganfod Ffydd, Her 1

Sgowtiaid – Gweithgaredd Treftadaeth, Gweithgaredd Fy Ffydd I, Gweithgaredd Crefyddau'r Byd, Dyfarniad Partneriaeth Amgylcheddol, Dyfarniad Her Gymunedol

Rhywbeth Arbennig

Mae'r gweithgaredd yma'n cynnig cyfle i'r plant fynegi eu hadwaith personol i nodweddion ac awyrgylch safle claddu. Anogir y plant i archwilio gan ddefnyddio eu synhwyrau i gyd.

Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Archwilio amgylchedd awyr agored gan ddefnyddio eu synhwyrau i ddisgrifio eu hemosiynau
- Nodi manylion am eu profiad synhwyraidd a dewis geiriau a lluniau i'w disgrifio

Adnoddau

Clipfwrdd, papur/taflen disgyblion, pensiliau lliw, pensiliau braslunio, glud, aamera.

Templed Synhwyrau Rhywbeth Arbennig

Cwestiynau Allweddol

Sut mae'r safle claddu'n gwneud i chi deimlo?

Ydi gwahanol lefydd yn gwneud i chi deimlo'n wahanol?

Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

1. Y Synhwyrau – Cerddwch yn dawel o amgylch y safle claddu ac edrychwch, aroglwch, gwrandewch, cyffyrddwch a theimlwch. Mae eich synhwyrau'n dylanwadu ar sut rydych yn teimlo am le. Beth mae eich synhwyrau'n ei ddweud wrthyhch?

2. Creu – bwrdd hwyliau o syniadau, teimladau a meddyliau sydd wedi'u casglu a'u cofnodi. Mae plant yn mynegi sut mae safle claddu'n gwneud iddynt deimlo drwy ddefnyddio eu synhwyrau i gofnodi geiriau, tynnu lluniau gyda camera, braslunio, dwldan, dangos lliw a chasglu gwrthrychau i'w hychwanegu at eu bwrdd hwyliau.

Gellid defnyddio'r templed synhwyrau rhywbeth arbennig sydd yn y pecyn hwn i gefnogi'r wers hon.

Sesiwn i Bawb

Mae'r plant yn dod at ei gilydd i rannu ac esbonio'r rhesymau dros pam maent wedi dewis yr hyn maent wedi'i ddewis. Gallent roi teitl i'w casgliad ar y bwrdd hwyliau.

Yn Ôl yn yr Ysgol

Ysgrifennu Cyffrous

Defnyddiwch y bwrdd hwyliau i ysbrydoli cerdd synhwyraidd neu gerdd lliwiau sy'n mynegi teimladau'r plant am y safle claddu, ei awyrgylch, ei nodweddion, ei arogleuon, ei synau, yr emosiynau ac ati.

- Gallai'r bwrdd hwyliau fod yn ganolog yng ngwaith y plant yn cynllunio stori a gellir ei ddefnyddio i helpu i ysgrifennu stori wedi'i lleoli mewn safle claddu. Bydd y plant yn defnyddio eu synhwyrau i greu'r awyrgylch maent am i'w darllenwyr ei brofi.
- Gellid defnyddio'r bwrdd hwyliau hefyd fel man cychwyn ar gyfer amrywiaeth o brosiectau celf.

CSBC

Ewch ar 'Helfa Garthwr y Synhwyrau', 'Saffari Synau' neu 'Llwybr Gwead' a chasglwch eiriau, lluniau ac eitemau ar gyfer collage synhwyrau.



RHYWBETH ARBENNIG

